**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Diweddariad 2012

Gorffennaf 2012

Ar 14 Mehefin 2011, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn bwriadu parhau i wneud datganiadau deddfwriaethol blynyddol i'r Cynulliad am Filiau'r Llywodraeth a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn honno. I baratoi ar gyfer datganiad o'r fath, mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r Biliau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod sesiwn 2011-2012 ac mae'n rhoi syniad o'r Biliau a allai gael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2012-2013. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o bob dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd hyd yn hyn sy'n ymwneud â Biliau'r Llywodraeth yn y dyfodol.

Mae'r papur yn ymwneud â Biliau Llywodraeth Cymru yn unig ac nid Biliau a gynigiwyd gan Aelodau'r Cynulliad, Pwyllgorau'r Cynulliad neu'r Comisiwn. Sylwch, fodd bynnag, nad yw'r wybodaeth yn y papur hwn yn rhestr lawn ac mae'n bosibl y bydd cynigion ychwanegol nad yw'r Llywodraeth wedi eu cyhoeddi eto yn cael eu hychwanegu at y rhaglen ddeddfwriaethol.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



**Rhif ymholiad:** 12/1674

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Rhaglen ddeddfwriaethol Cymru: Diweddariad 2012

Gorffennaf 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/034

Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 5**

**2. Biliau a gyflwynwyd yn ystod sesiwn 2011-2012 ........ 6**

2.1. Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ........ 6
2.2. Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ........ 6
2.3. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ........ 7
2.4. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ........ 7

**3. Biliau a awgrymwyd ar gyfer 2012-2013 ........ 9**

3.1. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ........ 9
3.2. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ........ 10
3.3. Bil Teithio Llesol (Cymru) ........ 11
3.4. Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru) ........ 12
3.5. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) ........ 12

**4. Biliau eraill yr ymgynghorwyd arnynt ........ 14**

4.1. Papur Gwyn: Bil Tai ........ 14
4.2. Dogfen Ymgynghori: Bil Tyllu (Oedran Cydsynio) ........ 15
4.3. Dogfen Ymgynghori: Bil Datblygu Cynaliadwy ........ 16
4.4. Dogfen Ymgynghori: Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ........ 17
4.5. Grŵp Cynghori Annibynnol: Bil Cynllunio ........ 17
4.6. Papur Gwyrdd: Cynnal Cymru Fyw ........ 18
4.7. Papur Gwyrdd: Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus ........ 19

**5. Biliau sy'n weddill ........ 20**

**6. Biliau eraill a allai gael eu hychwanegu at y rhaglen ddeddfwriaethol ........ 21**

6.1. Gwahardd ysmygu mewn ceir ........ 21
6.2. Pysgodfeydd ........ 22

**7. Biliau na chawsant eu cyflwyno ........ 24**

**A. Amserlen cyflwyno Biliau'r Cynulliad yn ystod y pedwerydd Cynulliad: diweddariad 2012 ........ 25**

# Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Diweddariad 2012

## 2. Cyflwyniad

Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaeth y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf.[1] Roedd y datganiad yn cynnwys manylion 21 o Filiau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cyflwyno yn ystod y pedwerydd Cynulliad hyd at etholiad nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016.[2] Mewn datganiad arall ar 14 Mehefin 2011, dywedodd y Prif Weinidog:

> There will continue to be an annual oral statement to the Assembly on the Government's legislative programme, with the initial statement setting out the headline items in the five-year Government programme and the detail of those Government Bills to be brought forward over the next 12 months. Subsequent annual statements will announce which Government Bills will be introduced during the course of that year.[3]

O ganlyniad, mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r Biliau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod sesiwn 2011-2012 ac mae'n rhoi syniad o'r Biliau a allai gael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2012-2013. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o bob dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd hyd yn hyn sy'n ymwneud â Biliau'r Llywodraeth yn y dyfodol.

Rhoddir gwybodaeth hefyd am y Biliau hynny na chawsant eu cynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, yn ogystal â gwybodaeth am Filiau newydd a allai gael eu hychwanegu.

**Mae'r papur yn ymwneud â Biliau Llywodraeth Cymru yn unig ac nid Biliau a gynigiwyd gan Aelodau'r Cynulliad, Pwyllgorau'r Cynulliad neu'r Comisiwn. Sylwch, fodd bynnag, nad yw'r wybodaeth yn y papur hwn yn rhestr lawn ac mae'n bosibl y bydd cynigion ychwanegol nad yw'r Llywodraeth wedi eu cyhoeddi eto yn cael eu hychwanegu at y rhaglen ddeddfwriaethol.**

Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gywir ar **10 Gorffennaf 2012**.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn*, 12 Gorffennaf 2011
[2] Mae gwybodaeth gefndir am bob un o'r Biliau ar gael yn y papur ymchwil *Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-2016* a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Gorffennaf 2011.
[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn*, 14 Mehefin 2011

## 3. Biliau a gyflwynwyd yn ystod sesiwn 2011-2012

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno pedwar Bil ers etholiad y Cynulliad ac ers ffurfio gweinyddiaeth Lafur leiafrifol ym mis Mai 2011. Ceir rhagor o wybodaeth am y biliau hyn isod.

### *3.1. Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)*

Cyflwynwyd y **Bil** gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC, ar **28 Tachwedd 2011**. Ei nod yw symleiddio a gwella'r ffordd y mae is-ddeddfau'n cael eu defnyddio fel mecanwaith rheoliadol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Cafodd y Bil ei ystyried gan y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** yng Nghyfnod 1 ac yng Nghyfnod 2 a chafodd ei basio gan y Cynulliad yng Nghyfnod 4 ar 3 Gorffennaf 2012. Ar hyn o bryd, dyma'r unig Fil sydd wedi cwblhau ei daith ddeddfwriaethol yn y pedwerydd Cynulliad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) mewn **Crynodeb o'r Bil** a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil. Gellir gweld manylion am y newidiadau a wnaed i'r Bil gan welliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2 yn y **Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2**.

### *3.2. Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)*

Cyflwynwyd y **Bil** hwn gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar **23 Ebrill 2012**. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ceisio mynd i'r afael ag ystod o faterion addysgol. Yn benodol, nod y Bil yw:

- darparu proses gliriach ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion ac ar gyfer gwella ysgolion drwy gyflwyno canllawiau statudol;
- diwygio'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol pryd bynnag y bo modd;
- diddymu'r gofyniad i Gyrff Llywodraethu Ysgolion gynnal Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni a chyflwyno hawl newydd i rieni alw cyfarfodydd â Chyrff Llywodraethu Ysgolion;
- rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac ysgolion o ran pennu prisiau prydau ysgol;
- prif ffrydio sawl rhaglen a ariennir gan grant er mwyn symleiddio'r prosesau presennol;
- gwneud awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.[4]

[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, ***Y Gweinidog yn gosod Bil i godi safonau mewn ysgolion***, 23 Ebrill 2012

Mae cyflwyno'r Bil yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar gynigion mewn **Papur Gwyn**, a gynhaliwyd rhwng 10 Hydref 2011 a 5 Ionawr 2012.

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yng Nghyfnod 1 yn y broses ddeddfu ac mae'n cael ei ystyried gan y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**. Mae gan y Pwyllgor tan 12 Hydref 2012 i lunio adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil mewn **crynodeb o'r Bil**.

## *3.3. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)*

Cyflwynwyd y **Bil** gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar **28 Mai 2012**. Mae cyflwyno'r Bil yn dilyn ymgynghoriad ar **fersiwn drafft o'r Bil** a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 14 Rhagfyr a 7 Mawrth 2012.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos gwybodaeth am eu safonau hylendid (eu sgôr hylendid bwyd) mewn man lle y gall cwsmeriaid ei gweld yn hawdd. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yng Nghyfnod 1 o'r broses ddeddfu ac mae'n cael ei ystyried gan y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae gan y Pwyllgor tan 5 Hydref 2012 i lunio adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol. Ceir rhagor o wybodeth am y Bil mewn **crynodeb o'r Bil**.

## *3.4. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*

Cyflwynwyd y Bil hwn gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty, Jane Hutt AC, ar **9 Gorffennaf 2012.**[5] Mae'n dilyn **ymgynghoriad** gan Lywodraeth Cymru ar **fersiwn drafft o'r Bil** a gynhaliwyd rhwng 15 Mawrth a 15 Mai 2012. Nod y Bil yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Yn benodol, ei nod yw:

- ymdrin â phryderon yn ymwneud â materion cyfrifyddu, priodoldeb a llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru ac mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 (o'r enw **Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru**) i wella goruchwyliaeth dros Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- lleihau'n sylweddol y posibilrwydd o anawsterau tebyg yn digwydd eto; a
- rhoi mwy o sicrwydd i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd.[6]

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yng nghyfnod 1 o'r broses deddfu ac mae'n cael ei ystyried gan y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**.

---

[5] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), ***Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) , Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet***, 10 Gorffennaf 2012
[6] Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Esboniadol: Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, 9 Gorffennaf 2012

Mae gwybodaeth gefndir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gael yn y papur ymchwil **Y Gyfundrefn Archwilio yng Nghymru rhwng 1999 a 2011**, a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad. Bydd y Gwasanaeth Ymchwil hefyd yn cyhoeddi crynodeb o’r Bil, a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am y Bil, maes o law.

## 4. Biliau a awgrymwyd ar gyfer 2012-2013

Isod ceir amlinelliad o'r Biliau y mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno yn ystod sesiwn 2012-13. **Sylwch, fodd bynnag, nad yw'r rhestr hon yn gyflawn ac efallai na fydd yn adlewyrchu'n gywir fwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.**

### *4.1. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*

Ar 18 Mehefin 2012, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, **Fil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft**, ynghyd â **dogfen ymgynghori** a **memorandwm esboniadol drafft**. Yn ei datganiad am y Bil, dywedodd y Gweinidog:

> Bydd y Bil hwn yn newid y ffordd y caiff cydsyniad ei roi ar gyfer organau a meinweoedd pobl sydd wedi marw yng Nghymru at ddibenion trawsblaniad. Y prif newid fydd mewn perthynas ag oedolion sy'n byw ac yn marw yng Nghymru, lle ystyrir y bydd cydsyniad wedi'i roi os nad ydynt wedi mynegi dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau. Ni fydd 'cydsyniad a ystyrir' yn berthnasol i bawb – bydd camau i ddiogelu plant, pobl nad yw'r gallu ganddynt i gydsynio a phobl nad ydynt yn byw yng Nghymru.
>
> Yn ymarferol, caiff pobl y cyfle naill i wneud penderfyniad yn ffurfiol i fod yn rhoddwyr (optio i mewn) neu i beidio bod yn rhoddwyr (optio allan), drwy osod eu henw ar gofrestr. Os ydynt yn penderfynu peidio gwneud y naill na'r llall, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael y cyfle i optio allan, byddant i bob pwrpas wedi gwneud penderfyniad y gyfraith 'cydsyniad a ystyrir'. Caiff hyn ei ystyried fel dymuniad yr ymadawedig i roi ei organau, ac mae'n benderfyniad y bydd teuluoedd, mewn modd sensitif, yn cael eu hannog i'w dderbyn.[7]

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 10 Medi 2012. O ran amseru, cadarnhaodd y Gweinidog:

> **Byddaf yn cyflwyno Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) i'r Cynulliad yn ystod sesiwn 2012-13 ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft.** ***[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].*** Rwy'n rhagweld y bydd y system feddal newydd o optio allan yn cael ei gweithredu yn 2015, ddwy flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth fynd trwy'r Cynulliad, er mwyn gallu cynnal ymgyrch gyfathrebu ac ymwybyddiaeth gyhoeddus eang.[8]

Mae cyhoeddi'r Bil drafft yn dilyn ymgynghoriad ar **Bapur Gwyn ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd** rhwng 8 Tachwedd 2011 a 31 Ionawr 2012. Cafwyd 1,234 o ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddodd y Gweinidog **grynodeb** o'r rhain ar 8 Mawrth 2012. O blith y rhai a ymatebodd a roddodd farn, roedd 52 y cant (646) yn cefnogi'r cynigion a 39 y cant (478) yn eu gwrthwynebu.[9]

---

[7] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths), ***Ymgynghoriad ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft.*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 18 Mehefin 2012

[8] Ibid

[9] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths), ***Cynigion ar gyfer deddfwriaeth ynghylch rhoi organau a meinweoedd – cyhoeddi adroddiad dadansoddi yn sgil ymgynghoriad***, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 8 Mawrth 2012

Mae rhagor o wybodaeth gefndir mewn perthynas â'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn ac yn y Bil drafft ar gael mewn papur ymchwil ar **Roi Organau a Meinwe** a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ym mis Tachwedd 2011.

### *4.2. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*

Ar 12 Mawrth 2012, cyhoeddodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, **Bapur Gwyn ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)**. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 1 Mehefin 2012.

Wrth gyhoeddi'r Papur Gwyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog y "datblygwyd y Bil hwn i ddarparu'r sail ddeddfwriaethol sydd ei hangen arnom i weithredu'r rhaglen o newid a amlinellir yn ein Papur Gwyn, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'."[10] Cafwyd cyfanswm o 275 o ymatebion ysgrifenedig mewn ymateb i'r ymgynghoriad.[11]

Roedd cyhoeddi'r Papur Gwyn yn dilyn datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr 2012 pan roddodd y Dirprwy Weinidog yr amlinelliad a ganlyn o ystod a chwmpas y Bil:

> Bydd y Bil yn rhoi'r hawl i bobl gael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth am sut i ddod o hyd i wasanaethau. …
>
> Bydd y Bil yn ehangu'r ystod o wasanaethau fel y bydd gan bobl yr hawl i daliad uniongyrchol, os mai dyna yw eu dymuniad, ac yn ymestyn hawliau gofalwyr i gael asesiad, drwy gyflwyno un ddyletswydd a fydd yn ein galluogi i ymestyn yr hawl i ofalwr gael asesiad yn ehangach, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hynny. Byddwn hefyd yn cryfhau'r weithdrefn gwyno ac yn ymestyn pwerau'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus i ystyried cwynion...
>
> Bydd y Bil hwn ... yn ymestyn y ddyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol a'r GIG i gydweithio wrth gyflwyno gwasanaethau integredig, gan gynnwys y disgwyliad y defnyddir cyllidebau cyfun a dulliau hyblyg eraill...
>
> Bydd y Bil yn pennu pwerau i sefydlu fframwaith canlyniadau cenedlaethol ac yn pennu safonau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym hefyd am fod yn glir ynghylch atebolrwydd lleol. Bydd y Bil felly'n gosod dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn penodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol cymwys i arwain a rheoli gwasanaethau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys pwerau i rannu cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.
>
> ...byddwn yn darparu sylfaen statudol i amddiffyn oedolion a chyfarwyddyd cenedlaethol cryfach, ac yn sefydlu cysylltiadau cliriach rhwng amddiffyn plant ac oedolion, drwy'r fframwaith cyfreithiol newydd. Bydd newidiadau strategol i'r system reoleiddio ar gyfer gofal

---

[10] Llywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas), ***Ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)***, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 12 Mawrth 2012
[11] Llywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas), ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn ymgynghoriad***

cymdeithasol, gan gynnwys egluro cyfrifoldebau cyflogwyr, a rôl y rheoleiddwyr wrth wirio hyfywedd ariannol y darparwyr...

Yn olaf, bydd y Bil yn symleiddio trefniadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu drwy osod dyletswydd ar y 22 o awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddod ynghyd i sefydlu un asiantaeth fabwysiadu.[12]

Fodd bynnag, mewn datganiad ychwanegol ar 28 Mehefin 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog na fyddai darpariaethau yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y Bil, yn dilyn sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn ystod cyfnod y Papur Gwyn.[13]
Yn sgil y penderfyniad hwn, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog gynlluniau i gyflwyno Bil gofal cymdeithasol ar wahân yn ystod y Cynulliad presennol. Dywedodd:

Mae'r penderfyniad hwn yn rhoi cyfle inni fynd y tu hwnt i'r cynigion sydd yn ein papur ymgynghori, ac mae'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn awgrymu imi fod yna awydd am hynny. Rwy'n cynnig felly y dylid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar wahân yn ystod oes y Cynulliad hwn, a fydd yn mynd i'r afael â rheoleiddio ac arolygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwy'n bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ar gynnwys arfaethedig yr ail Fil hwn yn ystod 2013, a rhoddaf wybod i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid am y datblygiadau wrth i'r gwaith ar y ddeddfwriaeth newydd hon fynd rhagddo. [14]

Cadarnhaodd hefyd y byddai'r Bil gwreiddiol yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2013 yn hytrach nag yn ystod tymor yr hydref 2012 fel y nodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr 2012.[15]

## *4.3. Bil Teithio Llesol (Cymru)*

Ar 9 Mai 2012, cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Bapur Gwyn ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth ym maes Teithio Llesol (llwybrau ar gyfer cerdded a beicio)**. Cafodd y Bil ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol wreiddiol Llywodraeth Cymru, ond o dan enw gwahanol, sef *Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru).*

Mae'r Papur Gwyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, a ddaw i ben ar 14 Awst 2012. Mae'n cynnwys cynigion sydd â'r nod o osod gofynion ar awdurdodau lleol yng Nghymru i:

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 24 Ionawr 2012
[13] Llywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas), ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn ymgynghoriad***
[14] Ibid
[15] Ibid

- nodi a mapio'r rhwydwaith o lwybrau sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer cerdded a beicio yn eu hardaloedd;
- nodi a mapio'r gwelliannau y byddai eu hangen er mwyn creu rhwydwaith cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio a datblygu rhestr o gynlluniau i ddarparu'r rhwydwaith, yn ôl trefn blaenoriaeth;
- darparu gwell rhwydwaith os bydd cyllid ar gael, a chan ddilyn y drefn briodol;
- ystyried y posibilrwydd o ddarparu gwell cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio wrth ddatblygu cynlluniau ffyrdd newydd.[16]

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl cyflwyno Bil i'r Cynulliad yn ystod tymor y gwanwyn 2013.[17]

## *4.4. Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru)*

Ar 17 Mai 2012, cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Bapur Gwyn ar Hybu Democratiaeth Lleol**. Mae'r papur yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn dod i ben ar 3 Awst 2012.

Wrth lansio'r papur, dywedodd y Gweinidog:

> Nod y Bil fydd ailgynllunio'r rheolau ar gyfer gweithrediad y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a diwygio strwythurau a swyddogaethau'r Comisiwn. Bydd y newidiadau hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad Mathias o raglen y Comisiwn o adolygiadau etholiadol a gynhaliwyd yn 2010, fel y nodwyd yn fy natganiad dyddiedig 25 Ionawr 2012.[18]

Dywedodd y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno "yn hydref 2012".[19]

## *4.5. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)*

Ar 2 Gorffennaf 2012, cyhoeddodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, **ymgynghoriad Papur Gwyn ar Fil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013.** Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 24 Medi 2012. Cafwyd manylion Bil yn ymwneud ag addysg bellach ac uwch yn rhaglen ddeddfwriaethol gwreiddiol Llywodraeth Cymru, ond yn rhan o Fil mwy, o dan y teitl *Bil Strwythurau Addysg, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru).* Bydd y darpariaethau sydd ar ôl sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig a rheoli perfformiad addysgu a oedd i fod yn y Bil hwnnw yn awr yn cael eu cynnwys mewn Bil ar wahân, sef Bil Addysg (Cymru) (gweler paragraff 4.4 isod i gael rhagor o fanylion).

Mewn perthynas ag addysg bellach, dywedodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn:

---

[16] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant), **Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Deithio Llesol (llwybrau ar gyfer cerdded a beicio),** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 9 Mai 2012
[17] Ibid
[18] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant), **Datganiad Ysgrifenedig - Lansio'r Papur Gwyn ar Hybu Democratiaeth Leol**, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 17 Mai 2012
[19] Ibid

...rhoi mwy o ryddid i golegau addysg bellach (AB) yng Nghymru, yng ngoleuni camau a gymerwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu colegau AB fel rhan o'r Llywodraeth ganolog at ddibenion Cyfrifon Gwladol. Mae dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael ei benderfynu i raddau helaeth yn ôl graddau rheolaeth y Llywodraeth ar sefydliadau AB. Am resymau ariannol a gweithredol, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd ag ailddosbarthu colegau AB. Rwyf felly yn bwriadu, drwy ddeddfwriaeth, roi mwy o ryddid i golegau yn y meysydd allweddol uchod, a cheisio gwrthdroi'r ailddosbarthu ac ailsefydlu colegau fel sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH).

Mae llacio'r pwerau hyn yn golygu y caiff yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad annibynnol ar lywodraethu AB a gyhoeddwyd ym Mawrth 2011, a oedd yn hyrwyddo model llywodraethu mentrau cymdeithasol, bellach yn cael eu gweithredu mewn colegau ar sail wirfoddol. Mae Colegau Cymru wedi rhoi gwarant y byddant yn parhau i hyrwyddo adroddiad Humphreys fel model o arfer da. Byddaf hefyd yn ailsefydlu'r arfer o gadw lleoedd i staff ar fyrddau colegau i sicrhau bod rôl yn dal i fod gan staff colegau yn y gwaith o lywodraethu beth bynnag fo'r trefniadau a ddilynir gan golegau.[20]

Mae darpariaethau ar gyfer addysg uwch yn y Bil yn cynnwys:

- diwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gan gynnwys sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a'i gwella;
- pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol i gefnogi partneriaethau a gweithgarwch ar y cyd; a
- cyllido undebau myfyrwyr a siarteri myfyrwyr pwrpasol.[21]

Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar 12 Gorffennaf 2011, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol.[22]

[20] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), **Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013**, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet. 2 Gorffennaf 2012.
[21] Ibid
[22] Cynulliad Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2011

## 5. Biliau eraill yr ymgynghorwyd arnynt

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori mewn perthynas â chwech o Filiau pellach y mae'n bosibl y cânt eu cyflwyno mewn sesiynau yn y dyfodol. Ceir crynodeb ohonynt isod.

### *5.1. Papur Gwyn: Bil Tai*

Ar 21 Mai 2012, cyhoeddodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, **Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell.** Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y papur yn dod i ben ar 17 Awst 2012.

Mae cyhoeddi'r Papur Gwyn yn dilyn ymgynghoriad blaenorol a gyhoeddwyg gan y Gweinidog rhwng 8 Rhagfyr 2011 a 17 Chwefror 2012 ar ddogfen o'r enw **Cwrdd â'r Her Tai: Creu Consenswys ar gyfer gweithredu**. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad hwnnw, ac mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yr ymatebion hynny'n llywio cynnwys y Bil.[23]

Wrth gyhoeddi'r Papur Gwyn, dywedodd y Gweinidog bod y ddogfen yn disgrifio "cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd a chamau eraill anneddfwriaethol".[24] Yn ogystal, rhoddodd fanylion am y cynigion hynny yn y Papur Gwyn a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth, sef:

- dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a sicrhau bod cymorth hyd yn oed yn well ar gael i bobl sy'n cael eu hunain yn ddigartref;
- dod â digartrefedd ymhlith teuluoedd i ben yng Nghymru erbyn 2019;
- cyflwyno cynllun cofrestru ac achredu gorfodol ar gyfer landlordiaid yn y sector preifat a fydd yn cynorthwyo unigolion a theuluoedd drwy reoleiddio arferion landlordiaid, asiantaethau gosod ac asiantaethau rheoli. Bydd landlordiaid da o fewn y sector preifat yn elwa ar y newidiadau hyn am na fydd yn caniatáu i arferion gwael barhau;
- mynd i'r afael â gwastraff ac effaith andwyol eiddo gwag drwy roi pŵer disgresiwn i awdurdodau lleol godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar adeiladau sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn;
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu safleoedd tai newydd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen safleoedd o'r fath;
- darparu mwy o opsiynau o ran y math o dai sydd ar gael i bobl ddiwallu eu hanghenion drwy ddiffinio Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a sefydlu math newydd o ddeiliadaeth ar gyfer tai cydweithredol;

---

[23] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Cwrdd â'r her tai – Creu consenswys ar gyfer gweithredu***, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 8 Rhagfyr 2011
[24] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell***, 21 Mai 2012

- cryfhau rôl strategol awdurdodau lleol wrth iddynt fynd ati i weld beth yw'r anghenion am dai yn lleol a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.[25]

Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n cyflwyno Bil Tai yn seiliedig ar gynigion y Papur Gwyn "yn hydref 2013".[26]

Fodd bynnag, roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys ymrwymiad i "fynd ati i ddiwygio tenantiaethau, **drwy gyfrwng Bil ar wahân**, yn ystod oes y Cynulliad hwn".[27]Mae'r Papur Gwyn yn nodi y gallai Bil o'r fath fod yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ar **rentu cartrefi** ym mis Mai 2006 ac yn y **Bil cartrefi ar rent drafft.** Cyhoeddodd y Gweinidog ddogfen ymgynghori ar 6 Gorffennaf 2012, sef **Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru**. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Awst 2012 a bydd yn cydredeg ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn tai sydd ar waith. Wrth gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, nododd y Gweinidog fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno "cynllun trwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantaethau sy'n gosod ac yn rheoli eiddo yn y sector hwn o'r farchnad dai.[28]

### *5.2. Dogfen Ymgynghori: Bil Tyllu (Oedran Cydsynio)*

Ar 18 Hydref 2011, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, **ddogfen ymgynghori ar dyllu cosmetig i bobl ifanc**. Yn y datganiad cysylltiedig a wnaed i'r Cyfarfod Llawn ar yr un diwrnod, pwysleisiodd y Gweinidog y bydd yn gwneud penderfyniad am yr angen i ddeddfu yn dilyn dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.[29]

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2012 a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o'r 228 o ymatebion a ddaeth i law.**

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2012, cadarnhaodd y Gweinidog mai ei bwriad yw:

> ...symud ymlaen gyda'r cynigion i greu deddf a fydd yn ymdrin â materion megis:
>
> - Oedran cydsynio gofynnol ar gyfer tyllu cosmetig. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i riant neu warcheidwad fod gyda rhywun ifanc dan 16 mlwydd oed pan fyddant yn cael triniaeth tyllu cosmetig. Bydd hyn yn cynnwys triniaethau mwy cyffredin, megis tyllu llabed y glust.

---

[25] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Lansio'r Papur Gwyn Tai,*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 21 Mai 2012
[26] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Lansio'r Papur Gwyn Tai,*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 21 Mai 2012
[27] Llywodraeth Cymru, ***Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell***, 21 Mai 2012
[28] Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth), ***Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru – Papur Ymgynghori***, 6 Gorffennaf 2012
[29] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 18 Hydref 2011

- Cyfyngiad oedran pendant ar gyfer tyllu cosmetig personol (tyllu'r tethi neu'r genitalia). Bydd hyn yn gwahardd y rhai sy'n darparu triniaeth tyllu cosmetig rhag darparu triniaeth tyllu cosmetig personol i bobl ifanc dan 18 mlwydd oed.

- Ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n darparu triniaeth tyllu cosmetig gynnal sesiwn cyn pob triniaeth tyllu cosmetig, ni waeth beth fo oedran y sawl sy'n dymuno cael y driniaeth. Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r canlynol, o leiaf:

    - A oes gan y sawl sy'n cael y driniaeth unrhyw broblemau iechyd sy'n golygu y bydd mewn mwy o berygl os caiff y driniaeth.
    - Sut y caiff y driniaeth ei rhoi, gan gynnwys unrhyw broblemau posibl.
    - Sut i ofalu am y twll er mwyn atal haint.

> Diben y ddeddfwriaeth hon yw gostwng nifer yr heintiadau a'r cymhlethdodau ar ôl triniaeth sy'n gysylltiedig â thyllu cosmetig yng Nghymru.[30]

Fodd bynnag, daeth y Gweinidog i'r casgliad "nad oes penderfyniad eto am y cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig hon" ac mai ei bwriad yw "cyhoeddi rhagor o fanylion ac ymgynghori'n llawn yn eu cylch, unwaith y byddant wedi eu cwblhau'n derfynol".[31]

## *5.3. Dogfen Ymgynghori: Bil Datblygu Cynaliadwy*

Ar 8 Mai 2012, lansiodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, **ddogfen ymgynghori** ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 18 Gorffennaf 2012.

Mae'r ddogfen yn amlinellu cynigion y Llywodraeth i ddatblygu a chryfhau'r ymagwedd tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud ag ymrwymiadau a wnaed yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru i:

- ddeddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru; a
- chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.

Wrth gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, dywedodd y Gweinidog:

> Rydym am i bob corff a sefydliad brysuro'r newid o blaid datblygu cynaliadwy, gan fynnu'r gorau o'n hadnoddau cyfyngedig a sicrhau'r canlyniadau gorau ar ran pobl Cymru. Dyma pam rydym am ddeddfu nawr, i ymrwymo Llywodraeth a sefydliadau datganoledig eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, ar lefel leol a chenedlaethol i'r daith.[32]

Dywedodd hefyd y byddai'r ymatebion a geir i'r ddogfen ymgynghori yn llywio Papur Gwyn ar Fil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2012.[33]

---

[30] Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) ***Tyllu Cosmetig i Bobl Ifanc,*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 30 Mai 2012
[31] Ibid
[32] Llywodraeth Cymru, John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ***Lansio ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy,*** 8 Mai 2012
[33] Ibid

## 5.4. *Dogfen Ymgynghori: Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*

Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n nodi y bydd Bil Addysg (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn ystod y Cynulliad presennol i "ddarparu ar gyfer systemau rheoli perfformiad gwell i athrawon, diwygio'r system bresennol o ddatganiadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig".[34] Yn wreiddiol, mae'n bosibl y bwriadwyd i'r darpariaethau hyn lunio rhan o'r *Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru),* a gafodd ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd wreiddiol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf 2011.
Ar 26 Mehefin 2012, cyhoeddodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ddogfen ymgynghori yn ymwneud â **diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig**.[35] Mae'r ddogfen yn nodi:

> Mae'r fframwaith statudol presennol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth sydd dros 30 mlwydd oed ac, er bod diwygiadau a gwelliannau wedi'u gwneud ers hynny, cafwyd nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau polisi pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn mae'n bryd addasu'r ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r newidiadau hyn, tra'n ailddatgan yr egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau presennol. **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r fframwaith, gan ddechrau gyda Bil, i greu system symlach a llai gwrthwynebus sy'n rhoi mwy o sicrwydd i rieni/gofalwyr ac sy'n seiliedig ar waith aml-asiantaeth effeithiol** *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[36]

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 19 Hydref 2012.

## 5.5. *Grŵp Cynghori Annibynnol: Bil Cynllunio*

Ar 30 Medi 2011, cyhoeddodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, y byddai'n sefydlu **grŵp cynghori annibynnol** i ffurfio sail dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio. Yn benodol, roedd yn gyfrifol am:

- nodi'r amcanion polisi allweddol y bydd yn rhaid i'r system gynllunio eu cyflenwi yn awr ac yn y dyfodol;
- asesu trefniadau cyflawni sefydliadau ar hyn o bryd, gan nodi meysydd o arfer da a meysydd sydd angen eu gwella; a,
- cynnig opsiynau ar gyfer darparu'r system gynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau llunio cynlluniau a rheoli datblygiadau.[37]

---

[34] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun deddfwriaethol 5 mlynedd***, 2 Gorffennaf 2012
[35] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews) Lansio dogfen ymgynghori ***"Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol": Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig***, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 26 Mehefin 2012
[36] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen ymgynghori: Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig,*** 26 Mehefin 2012
[37] Llywodraeth Cymru, John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy), ***Bil Cynllunio,*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 30 Medi 2011

Cynhaliodd y grŵp cynghori **ymgynghoriad** rhwng 11 Tachwedd a 3 Chwefror 2012. Yn ogystal, cyfarfu'r grŵp saith o weithiau rhwng mis Hydref 2011 a mis Mawrth 2012. Roedd i fod i gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau tua diwedd mis Mai 2012.[38]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod sesiwn 2015-16.[39] Mae disgwyl Papur Gwyn ddiwedd 2012.[40] Mae hefyd wedi cyhoeddi **dogfen** sy'n amlinellu sut y bydd y darpariaethau yn y Bil Cynllunio yn cyd-fynd â Biliau eraill yn y rhaglen ddeddfwriaethol, sef y Biliau Tai, Treftadaeth, Amgylchedd, Datblygu Cynaliadwy a Theithio Llesol.[41]

## *5.6. Papur Gwyrdd: Cynnal Cymru Fyw*

Ar 30 Ionawr 2012, lansiodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **Cynnal Cymru Fyw: Papur gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru**.

Yn ôl y ddogfen, bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn dylanwadu ar **Fil Amgylchedd 2014/15** sydd yn yr arfaeth a'r **Bil Cynllunio**, sydd hefyd yn yr arfaeth".[42] Ychwanegodd y papur:

> Y cynnig canolog yw ein bod yn symud at reoli a rheoleiddio'r amgylchedd ar lefel yr ecosystem2. Bydd hynny'n golygu ystyried a rheoleiddio'r amgylchedd a'i iechyd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na delio ag agweddau gwahanol ar wahân. Bydd yn golygu blaenoriaethu'r galw ar ein hadnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau gwahanol i gymdeithas – yn amrywio o werth yr amgylchedd ei hun, i gynhyrchu bwyd a defnyddio'r tir i godi tai arno. A bydd yn sbardun inni gymryd camau lleol a chenedlaethol i wneud y gorau o'r cyfleoedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sydd ar gael i ni fel gwlad.
>
> Byddwn yn disgwyl i'r ffordd newydd hon o reoli:
>
> - wneud ein hamgylchedd a'r bioamrywiaeth sy'n ei gynnal yn gryfach a mwy amrywiol;
> - creu prosesau rheoleiddio symlach a mwy cost-effeithiol;
> - rhoi mwy o sicrwydd i benderfynwyr.[43]

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 31 Mai 2012.

Cafwyd manylion ychwanegol am Fil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio **yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar greu un corff amgylcheddol i Gymru**, a gyflwynwyd ar 9 Chwefror 2012. Mae'r ddogfen yn nodi "bydd sefydlu'r corff

---

[38] Llywodraeth Cymru, ***Grwp cynghori annibynnol ar y Bil Cynllunio: Canlyniadau, amseru a mesur llwyddiant,*** 9 Tachwedd 2011
[39] Llywodraeth Cymru, ***Bil Cynllunio: amserlen,*** 4 Ebrill 2012
[40] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun deddfwriaethol 5 mlynedd***, 2 Gorffennaf 2012
[41] Llywodraeth Cymru, ***Bil Cynllunio: y darlun llawn***
[42] Llywodraeth Cymru, ***Cynnal Cymru Fyw: Papur gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru***, 30 Ionawr 2012, tudalen 1
[43] Ibid

newydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i adolygu blaenoriaethau a newid prosesau."[44] Nodir yn y ddogfen:

> Rydym am ddatblygu ein cynigion ar gyfer y dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau, cynllunio amgylcheddol a rheoleiddio yn y dyfodol, gyda mewnbwn gan y corff newydd o ddewis. Bydd y cynigion hyn, a fyddai'n ein galluogi i atgyfnerthu ein deddfwriaeth a'i moderneiddio ymhellach, **yn rhan o Fil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio**. ***[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].***[45]

Cafwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Chwefror 2012 a 2 Mai 2012. Mae **crynodeb o'r ymatebion** a gafwyd i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## *5.7. Papur Gwyrdd: Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus*

Ar 8 Mai 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC, ymgynghoriad ar **Bapur Gwyrdd o'r enw 'Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus'.** Ni chafodd manylion am y Bil hwn eu cynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol gwreiddiol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011.

Wrth gyhoeddi'r Papur Gwyrdd, dywedodd y Gweinidog y byddai'r cynigion yn cyflawni amcanion **Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**. Esboniodd y Gweinidog hefyd fod y Papur Gwyrdd yn cynnig deddfwriaeth yn y meysydd canlynol:

- gallu Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau statudol ar faterion sy'n effeithio ar y gweithlu gwasanaeth cyhoeddus datganoledig gan gynnwys proses lywodraethu ar gyfer mabwysiadu'r cytundebau a fydd yn deillio o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu
- dyletswydd ar sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus datganoledig i hyrwyddo a chymhwyso gweithio mewn partneriaeth wrth iddo effeithio ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu
- cod Dwy Haen a TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)) ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.[46]

Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus (sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf) cyn penderfynu ar y camau nesaf.[47]

---

[44] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Adnoddau Naturiol Cymru***, 9 Chwefror 2012, tudalen 15
[45] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Adnoddau Naturiol Cymru***, 9 Chwefror 2012, tudalen 15
[46] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), ***'Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru: Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus'***, Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 8 Mai 2012
[47] Ibid

## 6. Biliau sy'n weddill

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi manylion am ddyddiadau cyflwyno'r Biliau a ganlyn, a oedd wedi eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol wreiddiol. Mae rhagor o wybodaeth am y Biliau hyn ar gael mewn papur ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-2016, a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Gorffennaf 2011:

- **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):** gwneud darpariaethau yn ymwneud â chynyddu disgwyliad oes a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- **Bil Cam-drin Domestig (Cymru):** rhoi dyletswydd ar y cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i baratoi strategaeth cam-drin ddomestig a 'thrais yn erbyn menywod';
- **Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru):** cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid;
- **Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru):** adeiladu ar *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* ac i ehangu rôl Comisiynydd Plant Cymru;
- **Bil Treftadaeth:** symleiddio'r amrywiaeth eang o systemau rheoli sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu i ddiogelu asedau hanesyddol yng Nghymru;
- **Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector:** gwneud trefniadau compactau y trydydd sector rhwng awdurdodau lleol a chyrff cyfryngol y trydydd sector, sef Cynghorau Gwirfoddol Sirol, yn ofyniad statudol.

## 7. Biliau eraill a allai gael eu hychwanegu at y rhaglen ddeddfwriaethol

Yn ystod y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd, o bosibl, yn cyflwyno Biliau ychwanegol i'r rhai a amlinellwyd yn ei rhaglen ddeddfwriaethol wreiddiol. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### *7.1. Gwahardd ysmygu mewn ceir*

Ar 14 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yng Nghymru os bydd dulliau anstatudol yn profi'n aneffeithiol i ddechrau:

> The law already requires any vehicle that is used by more than one person in the course of paid or voluntary work to be smoke free and an extension is the next logical step.
>
> We will mount a renewed campaign to tackle smoking alongside other interventions such as quit programmes, but will consider pursuing legislative options if children's exposure to second-hand smoke does not start to fall within the next three years.[48]

Mae cam o'r fath eisoes wedi cael ei gymryd mewn rhannau helaeth o Awstralia, Canada ac mewn pump o daleithiau yn UDA, ond erioed ar dir mawr Ewrop (er bod ysmygu wedi'i wahardd mewn ceir preifat sy'n cludo teithwyr o dan 16 oed yn Cyprus).[49]

Ailbwysleisiodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, safbwynt Llywodraeth Cymru yn ystod dadl yr wrthblaid gan Blaid Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr 2011:

> The Welsh Government is already committed to launching a three-year media campaign in January to raise awareness of the dangers of smoking in cars carrying children. My officials will be evaluating data on children's exposure to second-hand smoke throughout the campaign to enable me to assess reductions in exposure. We are committed to taking tough action, and if evidence shows the campaign to reduce smoking in cars carrying minors does not achieve a significant reduction in exposure to second-hand smoke, we will consider legislation during the current term.[50]

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun gweithredu ar reoli tybaco** ar 10 Chwefror 2012. Mae'n cynnwys adran ar "geir di-fwg" ac mae'n cynnwys y cam gweithredu canlynol:

> Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch i fynd i'r afael ag ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant ac yn ystyried deddfu i wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant, os na fydd amlygiad plant i fwg ail-law yn dechrau lleihau dros y tair blynedd nesaf

---

[48] Wales online, ***Wales could be the first in Europe to ban smoking in cars carrying children***, 14 Gorffennaf 2011
[49] The Guardian, ***Welsh Assembly takes a new direction on health policy***, 19 Gorffennaf 2011
[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion – Y Cyfarfod Llawn***, 6 Rhagfyr 2011

(Cam Gweithredu 4.7).[51]

Pan lansiodd ymgyrch **Cychwyn Iach Cymru** Llywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2012, dywedodd y Prif Weinidog: "Os bydd rhaid, byddwn yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth bellach i amddiffyn plant rhag mwg ail law". Dywedodd hefyd: "Os na fydd lefelau smygu'n gostwng yn sgil yr ymgyrch, byddwn yn trafod gwaharddiad ar smygu mewn ceir sy'n cludo plant yn nes ymlaen yn y tymor llywodraethu pum mlynedd hwn".[52]

## *7.2. Pysgodfeydd*

Fel rhan o'i dystiolaeth i gyfarfod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar 19 Gorffennaf 2011, rhoddodd Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, fanylion am y cynigion deddfwriaethol ychwanegol yn ymwneud â physgodfeydd na chawsant eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf 2011:

> At present, my priority is to protect and to enhance the sustainability of the Welsh inshore fleet. I have met officials and I have asked them to draft legislation that will enable us to do that in the next few months. I intend to legislate to ensure that the Welsh inshore fisheries are protected and are managed in a sustainable fashion. To that end, I will be seeking the Assembly's consent to ban vessels over 12m in the Welsh inshore fisheries over the next year. I will then seek further legislative consent to bring that ban down to 11m in order to protect the fisheries that we have. That is my intention on the legislative front in response to some of those issues.[53]

Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei fod yn bwriadu cyflwyno darnau eraill o ddeddfwriaeth mewn perthynas â physgodfeydd Cymru yn ystod y tymor presennol o bum mlynedd:

> You will also be aware that I announced, some weeks ago, that I would be carrying forward a review of the entire legislative framework governing the Welsh fisheries zone. At present, there are 200 individual pieces of legislation that govern the use of the Welsh zone. This is too complex. It is very difficult for the industry and the regulators; so, we are looking at the consolidation of that legislation. Further pieces of legislation will be brought to the Assembly when we are in a position to do so. I expect this process to take between three and four years. Therefore, it will be an ongoing process over the coming period.[54]

Ychwanegodd:

> We will create a streamlined legislative framework within the Welsh zone; we will protect the inshore fisheries in Wales through legislation this year; and we will then seek to structure

---

[51] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco,*** 10 Chwefror 2012, adran 5.2
[52] Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, ***Ymgyrch i amddiffyn plant rhag mwg sigaréts mewn ceir,*** 6 Chwefror 2012
[53] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd***, 19 Gorffennaf 2011
[54] Ibid

and to work with the industry to ensure that it has the structures that enable it to bring its catch to the market.[55]

[55] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd***, 19 Gorffennaf 2011

## 8. Biliau na chawsant eu cyflwyno

Yn ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2011, dywedodd y Prif Weinidog:

> We will also introduce a **local government (collaborative measures) (Wales) Bill**. This will facilitate the process of local authorities making joint appointments, requiring them to consider doing so for posts of specified seniority, and create powers for the Auditor General for Wales to inspect and report on compliance with this duty, and for the Welsh Ministers to intervene in cases of failure.[56]

Fodd bynnag, mewn datganiad llafar ar 24 Ionawr 2012, dywedodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ei fod wedi ailystyried yr angen i gyflwyno Bil o'r fath. Dywedodd:

> Rwyf o'r farn nad oes angen uniongyrchol am ddeddfwriaeth bellach ym maes cydweithredu, ond byddaf yn cyhoeddi canllawiau statudol yn ddiweddarach eleni. Drwy waith grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, byddaf yn monitro'n ofalus y cynnydd y mae'r gwahanol rannau o'r compact yn ei wneud, ac, os yw'n methu neu'n araf, byddaf yn ailystyried y safbwynt hwn ar ddeddfwriaeth.[57]

[56] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2012
[57] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 24 Ionawr 2012

**A. Amserlen cyflwyno Biliau'r Cynulliad yn ystod y pedwerydd Cynulliad: diweddariad 2012**

| **Teitl y Bil** | **Dyddiad y Papur Gwyn / Bil drafft / ymgynghoriad** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| **Biliau a gyflwynwyd eisoes** | | |
| Bil Is-deddfau Llywodraeth Leol (Cymru) | Dim ymgynghoriad | 28 Tachwedd 2011 |
| Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) | Papur Gwyn (10 Hydref 2011 – 5 Ionawr 2012) | 23 Ebrill 2012 |
| Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) | Bil drafft (14 Rhagfyr 2011 – 7 Mawrth 2012) | 28 Mai 2012 |
| Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) | Bil drafft (15 Mawrth 2012 – 15 Mai 2012) | 9 Gorffennaf 2012 |
| **Biliau a awgrymwyd ar gyfer 2012-2013** | | |
| Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) | Papur Gwyn (8 Tachwedd 2011 – 31 Ionawr 2012)<br>Bil drafft (18 Mehefin 2012 – 10 Medi 2012) | Sesiwn 2012-2013 |
| Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) | Papur Gwyn (12 Mawrth 2012 – 1 Mehefin 2012) | Ionawr 2013 |
| Bil Teithio Llesol (Cymru) | Papur Gwyn (9 Mai 2012 – 14 Awst 2012) | Gwanwyn 2013 |
| Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru) | Papur Gwyn (17 Mai 2012 – 3 Awst 2012) | Hydref 2012 |
| Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) | Papur Gwyn (2 Gorffennaf 2012 – 24 Medi 2012 | Sesiwn 2012-2013 |

**Biliau eraill sydd wedi bod yn destun ymgynghori**

| | | |
|---|---|---|
| Bil Tai | Papur Gwyn (21 Mai 2012 – 17 Awst 2012) | Sesiwn 2013-2014 (Hydref 2013) |
| Bil Tyllu (Oedran Cydsynio) (Cymru) | Dogfen ymgynghori (18 Hydref 2011 – 31 Ionawr 2012) | Heb ei nodi |
| Bil Datblygu Cynaliadwy | Dogfen ymgynghori (8 Mai 2012 – 18 Gorffennaf 2012)<br>Cyflwyno Papur Gwyn yn ystod tymor yr hydref 2012 | Heb ei nodi |
| Bil Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus | Papur Gwyrdd (8 Mai 2012 – 31 Gorffennaf 2012) | Heb ei nodi |
| Bil yr Amgylchedd | Papur Gwyrdd (30 Ionawr 2012 – 31 Mai 2012) | Sesiwn 2014-2015 |
| Bil Cynllunio | Papur Gwyrdd (30 Ionawr 2012 – 31 Mai 2012)<br>Papur Gwyn i'w gyflwyno tua diwedd yn 2012.[58] | Sesiwn 2015-2016 |

**Biliau sy'n weddill**

| | | |
|---|---|---|
| Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) | Cyhoeddi ymgynghoriad yn 2012.[59] | Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd y Bil hwn yn cael ei gyflwyno rywbryd yn ystod ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol[60] |
| Bil Cam-drin Domestig (Cymru) | Heb ei nodi | Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2011 y |

[58] Llywodraeth Cymru, *Cynllun deddfwriaethol pum mlynedd,* 2 Gorffennaf 2012
[59] Ibid
[60] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn*, 12 Gorffennaf 2012

| | | |
|---|---|---|
| | | bydd y Bil hwn yn cael ei gyflwyno o fewn y dwy flynedd nesaf.[61] |
| Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru) | Heb ei nodi, ond mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori ar y Bil rywbryd yn 2012. [62] | Heb ei nodi |
| Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) | Heb ei nodi | Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno rywbryd yn ystod ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol.[63] |
| Bil Treftadaeth | Heb ei nodi | 2014-2015 |
| Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector | Heb ei nodi | Mae'r Prif Weinidog wedi nodi y bydd y Bil hwn yn cael ei gyflwyno tua diwedd y pedwerydd Cynulliad.[64] |
| Bil Rheoleiddio'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | Cyhoeddi Papur Gwyn rywbryd yn 2013. [65] | Heb ei nodi |
| Bil Cartrefi ar Rent | Heb ei nodi | Heb ei nodi |

[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y trafodion: y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2012
[62] Ibid
[63] Ibid
[64] Ibid
[65] Llywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas), ***Diweddariad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn dilyn ymgynghoriad***